# COD YMDDYGIAD MYFYRWYR **Y DRINDOD DEWI SANT**

**Mae'r ddogfen hon yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan fyfyrwyr yn Y Drindod Dewi Sant.**
Mae'r Drindod Dewi Sant yn disgwyl i'w myfyrwyr ymddwyn mewn modd na fydd yn dwyn anfri ar enw da'r Brifysgol. Os nad yw ymddygiad myfyriwr yn bodloni'r disgwyliadau a amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Myfyriwr, gellid gweithredu **Polisi Camymddwyn Anacademaidd** y Brifysgol. Ceir enghreifftiau o ymddygiad a allai dorri'r cod ymddygiad hwn yn y Polisi Camymddwyn Anacademaidd.

Mae'r Brifysgol yn ceisio darparu amgylchedd diogel a chynhwysol i bob myfyriwr, aelod staff ac aelod o'i chymuned, ac felly os bydd unrhyw un yn torri'r cod ymddygiad hwn, byddwn yn ystyried bod hynny'n beth difrifol iawn. Os ydych yn profi ymddygiad sy'n gwrth-ddweud y cod ymddygiad hwn, (e.e. aflonyddu, camymddwyn rhywiol, bwlio drwy'r cyfryngau cymdeithasol), rhowch adroddiad ar yr honiadau i'r Brifysgol fel yr amlinellir yn y Polisi Camymddwyn Anacademaidd. Bydd y Brifysgol yn ceisio rhoi cymorth i chi fel y bo'n briodol drwy ei gweithdrefnau (gall hyn gynnwys cynigion o gymorth iechyd meddwl a/neu atgyfeirio at gymorth allanol).

## Proffesiynoldeb

Disgwylir:

- I chi weithredu mewn ffordd onest a dilyn y gyfraith.
- I chi ymgyfarwyddo â pholisïau a rheoliadau cymeradwy'r Brifysgol a glynu wrthynt.
- I chi fynychu ac ymgysylltu â'ch rhaglen astudio a mynd ati'n rhagweithiol i geisio cymorth pan fo angen fel yr amlinellir yn y **Siarter Myfyrwyr**..
- Pan fo'n berthnasol, byddwch yn glynu wrth y safonau proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud ag ymddygiad personol a phroffesiynol. Gweler hefyd **Bolisi Addasrwydd i Ymarfer** y Brifysgol.
- Pan fo hynny'n berthnasol, byddwch yn glynu wrth ddisgwyliadau a gofynion perthnasol y corff rheoleiddio, statudol, i amddiffyn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth neu gleientiaid yn awr ac yn y dyfodol bob amser. Gweler hefyd **Bolisi Addasrwydd i Ymarfer** y Brifysgol

## Gofalu am ein gilydd

Disgwylir:

- I chi gydnabod bod pawb yn aelod cyfartal o'r gymuned boed yn athro, yn fyfyriwr, yn weinyddwr, yn lanhawr neu'n weithiwr diogelwch. Dylid dangos yr un parch a chefnogaeth at bawb..
- Na fyddwch yn feirniadol o eraill – heb feio na phardduo grwpiau neu unigolion, er enghraifft, pe baent yn cael eu taro'n wael gyda Covid-19 neu os na allant ddilyn pob ymddygiad diogelu oherwydd rhesymau anabledd neu eithrio meddygol.
- I chi helpu eich cyd-fyfyrwyr boed ar y campws, ar-lein neu mewn neuaddau, heb achosi risg i chi a/neu eraill, yn enwedig os ydynt mewn trafferthion neu os nad ydynt yn deall gweithdrefnau. Er enghraifft, gallwch gynnig help drwy gyfeirio eich cyd-fyfyriwr at y gwasanaeth cymorth priodol (e.e. **Hwb neu Wasanaethau Myfyrwyr**).

## Cynrychioli'r Brifysgol

- Rydych chi'n llysgennad i'r Brifysgol bob amser. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i chi weithredu'n gyfrifol ac yn barchus yn y gymuned leol a phan fyddwch i ffwrdd o'r amgylchedd lleol (er enghraifft, tra byddwch yn astudio dramor, ar deithiau maes neu leoliadau, neu wrth gynrychioli'r Brifysgol mewn digwyddiadau chwaraeon).
- Dylech ddangos agwedd chwarae teg pan fyddwch yn cynrychioli'r Brifysgol mewn digwyddiadau chwaraeon.
- Wrth ymweld â lleoliadau oddi ar y campws ar gyfer digwyddiadau, dylech drin y cyfleusterau yn y lleoliad yr ydych yn ymweld ag ef, yn ogystal ag unrhyw gludiant sydd wedi'i drefnu i fynd â chi i'ch lleoliad, yn briodol gydag ystyriaeth briodol i eraill.
- Dylech ymddwyn mewn modd sy'n cynnal enw da'r Brifysgol, gan gynnwys pan fyddwch i ffwrdd o'r campws ar gyfer digwyddiadau chwaraeon neu gymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol.

## Parch at Amgylchedd y Brifysgol

Disgwylir:

- I chi drin adeiladau, eiddo a chyfleusterau'r Brifysgol â pharch ac ymatal rhag ymddygiad a allai niweidio amgylchedd y Brifysgol.
- I chi sicrhau bod unrhyw offer neu gyfleusterau'r Drindod Dewi Sant yn cael eu defnyddio'n briodol a chydag ystyriaeth briodol i eraill (e.e. cyfrifiaduron neu offer a rennir, **Polisi Defnydd Derbyniol TG**).
- I chi ddangos parch at amgylchedd y campws (er enghraifft drwy gael gwared ar sbwriel yn briodol).
- I chi eich gwneud eich hun yn ymwybodol o'r trefniadau iechyd a diogelwch yn y Brifysgol (er enghraifft, **Polisi Ysmygu'r Brifysgol**).
- Bod gennych eich cerdyn adnabod myfyriwr gyda chi tra byddwch chi ar y campws ac yn defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol.

## Parch at Eraill

Disgwylir:

- I chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais tuag at eraill.
- I chi gydnabod pwysigrwydd a gwerth cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghymuned y Brifysgol drwy drin pob aelod o'r Brifysgol ag urddas a pharch yn bersonol a thrwy ddulliau amgen (gan gynnwys yr e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, negeseua gwib a negeseuon testun ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) fel nad ydynt yn teimlo bod rhywun yn aflonyddu arnynt neu'n eu bwlio.
- I chi ymddwyn mewn modd nad yw'n niweidio neu nad oes ganddo'r potensial i niweidio eraill. Mae hyn yn cynnwys ymatal rhag y canlynol:
  - Ymddygiad ymosodol neu afresymol e.e. gweithredoedd bwlio neu aflonyddu; gan gynnwys aflonyddu sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010;
  - Camymddwyn corfforol e.e. dyrnu, cicio, slapio, brathu, gwthio neu saethu;
  - Camymddwyn rhywiol (gweler y Polisi Camymddwyn Anacademaidd);
  - Bygwth anaf neu drais yn erbyn eraill;
  - Gweithgareddau a allai fod yn drosedd casineb;
  - Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o annog, neu gymryd rhan mewn, gweithredoedd terfysgaeth;
  - Gweithgareddau sy'n lledaenu gwybodaeth anghywir;
  - Gweithgareddau sy'n meithrin naratifau bai.
- I chi barchu hawl eraill i ddal barn sy'n wahanol i'ch barn chi eich hun. Mae'r Brifysgol yn annog trafodaeth a thrafodaeth barchus. Pan fydd anghytuno neu ddadlau, disgwylir i fyfyrwyr ddefnyddio iaith briodol bob amser.

## Parch at y gymuned

Disgwylir:

- I chi ymgynghori a dilyn canllawiau cyfredol y llywodraeth a chyngor, arweiniad a rheoliadau'r Brifysgol ynghylch Covid-19 gan gynnwys yr angen i aros mewn cwarantin, hunanynysu, neu roi gwybod er mwyn olrhain cysylltiadau.
- I chi gadw pellter ffisegol o o leiaf ddau fetr rhyngoch chi ac eraill ym mhob safle prifysgol lle mae'n bosibl.
- I chi ddilyn yr holl arferion iechyd a diogelwch sy'n ofynnol neu a argymhellir gan weithwyr iechyd proffesiynol megis golchi dwylo'n aml a glanweithdra dwylo.
- I chi lynu wrth bolisïau'r Brifysgol sy'n ymwneud â gwisgo mygydau wyneb.
- I chi ymddwyn yn gyfrifol yn y gymuned ehangach y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddi ac yn dilyn unrhyw ganllawiau lleol, e.e. mewn perthynas â digwyddiadau cymdeithasol. Dylech fod yn ymwybodol y gall yr heddlu lleol ddefnyddio hysbysiadau Gorchymyn Gwasgaru Adran 35 mewn perthynas â digwyddiadau mawr.